CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD

# GWYRDDNI

COMMUNITY • CLIMATE • ACTION



# CYNLLUN GWEITHREDU HINSAWDD CYMUNEDOL

# PEN LLŶN








# CYNNWYS

Cefndir ........ 4
Canllawiau Gweithredu ........ 5
Egwyddorion ........ 5
Syniadau Gweithredu ........ 6
Gwybodaeth Bellach ........ 12

# CEFNDIR

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn wedi ei lunio gan drigolion o Ben Llŷn a ddaeth at ei gilydd mewn Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd rhwng Gorffennaf 2022 ac Ebrill 2023.

GwyrddNi, mudiad gweithredu ar newid hinsawdd fu'n trefnu a hwyluso'r Cynulliadau mewn cydweithrediad ac Ynni Llŷn, ein partner lleol ym Mhen Llŷn. Arianwyd y gwaith gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Cynhaliwyd rhaglen addysg mewn ysgolion lleol a phedair sesiwn gyda'r aelodau yn y gymuned er mwyn dysgu, rhannu a thrafod cyn cydweithio i ateb y cwestiwn: Sut allwn ni ym Mhen Llŷn ymateb yn lleol i Newid Hinsawdd?

Mae'r atebion i'w gweld yn y Cynllun Gweithredu hwn. Mae gwahoddiad nawr i unrhyw un o'r ardal sydd â diddordeb i ymuno ar y daith i wireddu'r syniadau hyn.




CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD
GWYRDDNI
COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

DEG Datblygiadau Egni Gwledig | Ynni Llŷn | CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND



# CANLLAWIAU GWEITHREDU

Wrth ymateb yn lleol i'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol, bydd holl weithredu y Cynulliad Hinsawdd yn:

| | |
|---|---|
| **DEG, CYNHWYSOL A CHREADIGOL**<br>gan gefnogi diwylliant, iaith, amrywiaeth, creadigrwydd, mynediad a chydraddoldeb | **ADEILADU GWYTNWCH CYMUNEDOL**<br>gofalu am y gymuned a'i gwneud yn fwy gwydn i beth bynnag fydd yn digwydd yn y dyfodol |
| **ELWA'R AMGYLCHEDD NATURIOL**<br>parchu natur, cynefinoedd a bioamrywiaeth, a ble mae'n bosib, ei gynyddu | **GWYBODUS**<br>cymryd i ystyriaeth gwybodaeth, profiad a barn, meddwl hir-dymor ac adnabod y rhyng-gysylltiad rhwng popeth |

# > EGWYDDORION

Dyma'r egwyddorion/canllawiau gyflwynwyd gan grwpiau o aelodau i'r Cynulliad Llawn ar ddechrau'r broses. Wedi hyn penderfynnwyd ffurfio grwpiau thematig i ddatblygu'r gweledigaethau a gweithredoedd sydd yn y Cynllun Gweithredu:

- Unrhyw gynllun i ganolbwyntio ar iaith a diwylliant unigryw yr ardal
- Buddsoddi'r budd yn lleol mewn prosiectau e.e. (swyddi, tai ayb.)
- Datblygu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar adnoddau naturiol
- Annog twristiaeth werdd a threftadol
- Datblygu prosiectau ar lefel lleol a micro leol (e.e. Prosiect fyddai yn addas i Aberdaron ddim o angenrheidrwydd yn addas i Bwllheli)
- Cynhwysoldeb - llais i bawb, canfod yr hyn sy'n gyffredin, positifrwydd
- Eglurdeb - gwneud yn siwr fod pawb yn deall, egluro pwrpas, gonestrwydd a chyflwyno ffeithiau a thystiolaeth gywir gyda chyd-destun
- Gweithio tuag at flaenoriaethau gweithredol
- Ystyried sut y mae gwahanol themau yn effeithio eu gilydd a datblygu themau trawstoriadol
- Y lleol a'r byd-eang yn gysylltiedig
- Gwerthfawrogi'r tir, bioamrywiaeth ac ecosystemau
- Merddwl yn greadigol a meddwl-agored
- Mae'n iawn peidio cytuno
- Ymroi i gyfathrebu yn eang mewn amrywiol ffyrdd i gynnwys pawb yn y gymuned
- Canolbwyntio a bod mor benodol a phosib yn ein negeseuon a thrafodaethau
- Dim 'jargon'
- Cydweithio gyda charedigrwydd tuag at nôd cyffredin
- Uchelgais berthnasol a realistig
- Cydweithio mewn grwpiau diddordeb mewn ffordd gydweithredol, cymuned-ganolog



# > GWELEDIGAETHAU A SYNIADAU GWEITHREDU

## YNNI

| Y Syniad | Manylion ac Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|
| Asiantaeth Ynni Cymunedol/Uned Gwybodaeth i Ben Llŷn (Cydweithio gyda Ynni Llŷn) | Asiantaeth a gwasanaeth rheoli annibynnol i gefnogi, hyrwyddo a gweithredu prosiectau lleol effeithlonrwydd ynni cartrefi a rhoi gwybodaeth, a chyngor ar faterion ynni<br>Retroffitio pob math o adeilad<br>Sicrhau cartrefi rhatach i'w rhedeg<br>Cynhyrchu ynni gwyrdd i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol, a chryfhau ein cymunedau, a'u diwylliant<br>Olwyn bochdew i bobl yn cynhyrchu trydan<br>Datblygu hwb ynni bychan sy'n defnyddio solar, gwynt, pwmp gwres a hydro i gyflenwi ynni gwyrdd<br>**Effaith:** Lleihau llygredd carbon, Cynyddu hunan gynhaliaeth ynni, Gwell ansawdd bywyd a iechyd, mwy o gyflogaeth leol, Cymunedau mwy cydlynus a gwydn, haws cysylltu ynni adnewyddol i'r grid | Sicrhau cyllid i'r Asiantaeth Ynni Gymunedol<br>Rhannu amcanion a gwybodaeth gyda'r gymuned ehangach i godi ymwybyddiaeth<br>Adnabod ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys contractwyr lleol)<br>Sefydlu sylfaen wybodaeth - gwefan a byrddau gwybodaeth a.y.y.b. |
| Cynhyrchu Lleol a Rhwydwaith Trydan Lleol | Annog hunan-gynhaliaeth ynni mewn cartrefi a busnesau<br>Trwy fonitro'r defnydd cyfredol a darogan galw yn y dyfodol byddai system yn cael ei datblygu i reoli cyfnodau brig yn y galw a hwyluso prosiectau cynhyrchu adnewyddadwy newydd<br>**Effaith:** (fel yr uchod) | Ymgysylltu gyda Rhwydwaith Ynni Scottish Power<br>Ymchwilio'r sefyllfa ac adnabod cynlluniau a lleoliadau<br>Adnabod technolegau addas sy'n gydnaws a'r amgylchedd adeiledig a naturiol lleol |

# > GWELEDIGAETHAU A SYNIADAU GWEITHREDU

## TRAFNIDIAETH

| Y Synaid | Manylion ac Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|
| Sefydlu hybiau trafnidiaeth a banc ynni/ gwefru lleol ym mhob cymuned (Cydweithio gyda O Ddrws i Ddrws) | Pwyntiau gwefru i gerbydau ac e-feiciau<br>Cynlluniau rhannu cerbydau / beiciau<br>Fflyd o geir cymunedol<br>Chwyldro bysiau - ar alwad<br>Ceir trydan i ofalwyr<br>**Effaith:** Lleihau defnydd o danwydd ffosil, alldyriadau carbon a thlodi tanwydd, llesiant cymdeithasol ac economaidd | Ffeindio sefydliad arweiniol<br>Creu cynllun busnes<br>Ffeindio ffynnonellau ariannu a gwneud ceisiadau am gyllid |
| Ymgyrch/Menter Beicio Cyfeillgar Llŷn | Ymgyrchu, gweithdai<br>Gwared ar rwystrau i feicio - gwefru, trwsio, rhannu<br>Hybu beicio ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr<br>**Effaith:** Iechyd a llesiant, lleihau 'road kill', lleihau llygredd, cynyddu gwybodaeth leol, lleihau costau byw, diogelwch | Sefydlu grwp beicio<br>Cysylltu gyda sefydliadau beicio a llywodraethu lleol<br>Cynhyrchu cynllun trafnidiaeth gan gynnwys teithio gweithredol |
| Cynllun Gwirfoddoli Wardeiniaid Llwybrau | Helpu i gynnal a chadw llwybrau lleol<br>Rhoi perchnogaeth gymunedol dros y rhwydwaith<br>**Effaith:** Llai o berygl i fywyd gwyllt, cryfhau cymdeithasol drwy wirfoddoli, lleihau costau cynnal a chadw, budd economaidd eco-dwristiaeth | Trafod gyda'r awrdudodau a sefydliadau perthnasol<br>Peilot mewn un neu fwy o gymunedau Llŷn |



# > GWELEDIGAETHAU A SYNIADAU GWEITHREDU

## TRAFNIDIAETH

| Y Synaid | Manylion ac Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|
| Rhwydwaith 'Lôn Las' | Creu coridorau glas i gerdded, beicio a chadeiriau olwyn<br>Pwllheli i Aberdaron, Arfordir y Gogledd<br>Portmeirion i Abersoch<br>Felin Uchaf i Aberdaron<br>Llwybr cyswllt De - Gogledd<br>**Effaith:** Llai o berygl i fywyd gwyllt, cryfhau cymdeithasol drwy wirfoddoli, lleihau costau cynnal a chadw, budd economaidd eco-dwristiaeth | Cydweithio gyda ffermwyr a thrafod defnyddio grantiau amaeth newydd llywodraeth Cymru<br>Trafod gyda'r awrdudodau a sefydliadau perthnasol |
| Tramffordd: Amlwch i Aberdaron | Bangor i Bwllheli gyda estyniad i Nefyn ac Abersoch<br>Wedi ei adeiladu a'i berchnogi yn lleol<br>Defnyddio hen draciau pan yn bosib<br>**Effaith:** Lleihau'r defnydd o geir, trafnidiaeth gyhoeddus rad dan reolaeth leol | Sefydlu'r ewyllys wleidyddol a'r gallu peirianyddol mewn cydweithrediad gyda Rheilffordd Ucheldir Cymru<br>Trafod gyda'r Gweinidog yn Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am drafnidiaeth |
| Gweldigaethau trafnidiaeth plant ysgol | Ceffylau, beiciau a scwteri i bawb<br>**Effaith:** Codi ymwybyddiaeth o'r argyfwng newid hinsawdd ymysg plant, rhoi gobaith iddynt drwy eu grymuso i gymeryd cyfrifoldeb a gweithredu | Plethu'r syniadau gyda'r Cynllun Gweithredu<br>Parhau â'r cyswllt gyda ysgolion<br>Datblygu a gweithredu rhai syniadau |

# > GWELEDIGAETHAU A SYNIADAU GWEITHREDU

## AMAETHYDDIAETH, HUNANGYNHALIAETH, BIOAMRYWIAETH A'R MÔR

| Y Syniad | Manylion ac Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|
| Banc hadau | Sefydlu banc hadau unigryw i Llŷn fydd yn hyrwyddo bioamrywiaeth ac yn sicrhau diogelwch bwyd<br>Arbed hadau a pheillio agored<br>Creu gerddi micro o flodau gwyllt ym mhob cymuned e.e. mynwentydd ac ar ochr lonydd<br>**Effaith:** gwytnwch cymunedol, adnodd addysg, lleihau ôl troed carbon, amrywiaeth a sicrwydd bwydydd, tirlun bioamrywiol, bendithion iechyd | Sefydlu hwb a thim cefnogi<br>Hyrwyddo digwyddiadau i sefydlu rhwydwaith lleol o gynhyrchwyr hadau<br>Hyrwyddo gwefan had.cymru a meithrin cysylltiadau |
| Bwydo 20,000 a Chanolfan Arddangos Ecoleg Foesegol | Mae Pen Llŷn yn 100,000 erw ac 20,000 o bobl, y gellir eu bwydo o 1,000 erw - defnyddio'r Model 1 erw y pen<br>Sefydlu 50 erw o dyfu mewn 20 lleoliad<br>Cynnwys ysgolion a rhandiroedd<br>Creu arddangosiad cyntaf y Byd o Drigfannau Moesegol ar y Ddaear<br>Arddangosiad o Ynni, Tai, Garddwriaeth, Democratiaeth<br>Posibilrwydd creu 'arian' ar gyfer masnachu ym Mhen Llŷn<br>**Effaith:** Cyflawni gwytnwch a hunangynhaliaeth sy'n ailadeiladu cymuned tra'n hybu'r economi, cynhyrchu lleol, lleihau milltiroedd bwyd, llai o bacedu | Adnabod safleoedd i dyfu bwyd<br>Sefydlu micro-hybiau i gynnyrch lleol a'u cysylltu gyda chyflenwyr<br>Ymweld â mentrau tebyg<br>Prynu fferm drwy 'Ymddiriedolaeth Tir 'Gaian Earth Cymru' |
| Parc bioamrywiaeth arfordirol | Creu Parc llinol o amddiffynfeydd llifogydd, corsydd, a chynefin arfordirol rhwng y briffordd a'r môr. o Lanbedrog i Borthmadog<br>**Effaith:** Cynyddu mynediad a gwarchod bioamrywiaeth, gwarchod gorlifo | Gweithio gyda Ffrindiau Pwllheli i sicrhau pwynt cychwyn |



# > GWELEDIGAETHAU A SYNIADAU GWEITHREDU

## AMAETHYDDIAETH, HUNANGYNHALIAETH, BIOAMRYWIAETH A'R MÔR

| Y Syniad | Manylion ac Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|
| Llwyfan i gynnig pecyn gwyliau cynaliadwy | Llety sy'n cael ei redeg mewn ffordd gynaliadwy<br>Cynnyrch lleol a theithio cynaliadwy<br>Twristiaeth werdd ddiwylliannol gyda defnydd o'r Gymraeg<br>**Effaith:** Lleihau ôl troed carbon a milltiroedd bwyd, codi ymwybyddiaeth o faterion gwyrdd, diwylliannol a ieithyddol | Sefydlu grŵp<br>Ymchwilio modelau tebyg<br>Cysylltu gyda rhanddeiliaid eraill |
| Gweledigaethau'r plant ysgolion cynradd: | Helpu ffermwyr i newid i dractorau trydan (a thanwyddau eraill)<br>Paneli solar ar adeiladau ffermydd a chynhyrchu trydan<br>Ffermydd bychain ar ochr lonydd - blodau gwyllt, coed ffrwythau a chychod gwenyn<br>Plannu, siôp hadau a dysgu am forwellt<br>Annog ac addysgu pobl i blannu coed a blodau gwyllt<br>**Effaith:** Cryfhau hunangynhaliaeth bwyd ac ynni, storio carbon | Ymgorffori'r syniadau mewn cynlluniau eraill<br>Gweithredu fel ysgolion e.e. planu morwellt |
| Hyrwyddo cynnyrch lleol | Cofnodi cynnyrch, cynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd PenLlŷn<br>Marchnata a hysbysebu cynnyrch, cynhyrchwyr a chyflenwyr<br>Goresgyn rhwystrau i gynhyrchu lleol<br>**Effaith:** Lleihau milltiroedd bwyd, gwell iechyd, cryfhau cydweithio, hwb i'r economi leol | Creu cyfeirlyfr a rhwydwaith bwyd<br>Hyrwyddo'r cynnyrch a'r cyflenwyr |

## > GWELEDIGAETHAU A SYNIADAU GWEITHREDU

### POBL, YMDDYGIAD A DATBLYGU CYMUNEDOL

| Y Syniad | Manylion ac Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|
| Eco-hyfforddi | Help i unigolion a grwpiau i ddeall yr argyfwng hinsawdd a gosod a chyrraedd amcanion personnol<br>Newid ymddygiad gan ymgorffori cysyniadau eco-iechyd (Lebel 2003) a chyfalaf meddyliol (Foresight, 2008)<br>Mae'n addas ar gyfer amrywiaeth o leoliadau a phobl<br>**Effaith:** Gwell dealltwriaeth o faterion hinsawdd, mwy o hunan-ymwybyddiaeth, symud tuag at 'addasu hinsawdd', grymuso pobl, gwytnwch cynyddol, newidiadau incremental | Codi ymwybyddiaeth o'r hyfforddiant ar gael<br>Hyfforddi mwy o hyfforddwyr<br>Gweithio gyda ymarferwyr lleol<br>Ffeindio model ariannnu |
| Presgripsiynnau Gwyrdd | Annog meddygfeydd, canolfannau iechyd a gofal cymdeithasol lleol i ddefnyddio presgripsiynnau gwyrdd gan gynnwys modelau 'Realaeth Rithiol' Simon Jones<br>Defnyddio gofodau gwyrdd i weithgareddau cadwraeth gyda'r nôd o wella iechyd ac addasu amgylcheddol<br>Hyfforddiant ar ddefnyddio 'presgripsiynnau gwyrdd'<br>**Effaith:** Defnydd llai o gyffuriau ac apwyntiadau iechyd, arbed arian i'r NHS, mwy mewn cysylltiad gyda natur, gwell iechyd a lles corfforol a meddyliol, llai o unigedd | Adnabod pobl i ganfasio meddygon teulu<br>Adnabod gweithgareddau fel presgripsiynnau a lleoliadau<br>Hyfforddiant i feddygon ac arweinwyr gweithgaredd<br>Cysylltu gyda chartrefi gofal |
| Addysg: Gweledigaethau'r plant ysgolion cynradd | Dysgu am sut i helpu'r byd yn yr ysgol<br>Cyfle a chefnogaeth i ddysgu Cymraeg<br>Pawb o bob oed yn dysgu<br>**Effaith:** Ieuenctid yn dylanwadu ar oedolion, cefnogi'r ifanc i weledigaethu a gweithredu, newid meddylfryd ac arferion, democratiaeth addysgol ac addysg gydol oes | Adnabod profiadau i ysbrydoli'r ifanc<br>Gwireddu rhai o'r gweledigaethau<br>Gweithgareddau teuluol<br>Cefnogi ysgolion i gyrraedd statws 'Eco-ysgol' |



## > GWELEDIGAETHAU A SYNIADAU GWEITHREDU

### GWASTRAFF

| Y Syniad | Manylion ac Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|
| Pen Llŷn ddi-blastig | Datblygu cynllun i sicrhau Pen Llŷn ddi-blastig gan efelychu Môn<br>Taclo gwastraff plastig defnydd unigol Llŷn<br>Peiriant i hel sbwriel o'r môr wedi ei ddyfeisio yn lleoll (Gweledigaeth plant ysgol)<br>**Effaith:** Llai o wastraff plastig a micro-blastigau, cymuned lanach, iachach a mwy cyfeillgar i fywyd gwyllt a phobl, mwy o ailgylchu ac anelu am sero-gwastraff | Ymgynyll pawb a diddordeb i ddatblygu strategaeth a brand<br>Holi am gyngor gan fudiadau fel 'Môn ddi blastig', Cadw Cymru'n Daclus', Gwarchodwyr Traethau'r Cambrian', busnesau a 'Syrffwyr yn Erbyn Carthffosiaeth'<br>Cysylltu â chyrff cyhoeddus<br>Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo arferion amgen |

## > GWELEDIGAETHAU A SYNIADAU GWEITHREDU

CYNLLUNIAU AR LEFEL MICROGYMUNEDOL

| Y Syniad | Manylion ac Effaith | Camau Nesaf |
|---|---|---|
| Creu llwybr gweithgareddau natur ym Mhwllheli | Hygyrch i bob cenhedlaeth<br>Cysylltu pobl leol ac ymwelwyr â mannau gwyrdd a glas<br>Gwirfoddolwyr yn cynnal y llwybr<br>Addas ar gyfer cerdded a rowlio<br>Elfennau addysgol, diwylliannol a rhyngweithiol sy'n hyrwyddo natur a chynaliadwyedd<br>**Effaith:** Codi ymwybyddiaeth, codi proffeil gwyrdd y dref, effeithiau iechyd | Ffurfioli grŵp GwyrddNi Pwllheli - Ffrindiau Pwlllheli<br>Diffinio'r cydweithio gydag eraill gan gynnwys y Cyngor Tref<br>Canfod mwy o wirfoddolwyr a ffynonellau cyllido |
| Canolfan Ffyniant Pen Llŷn , Y Tŵr, Pwllheli | **Hwb gwyrdd a swyddfeydd ar gyfer potensial datblygu Pen Llŷn**<br>**100% yn effeithlon o ran ynni**<br>**Dim ond yn gweini cynnyrch lleol yn y caffi a'r bwyty**<br>**Siop gyda holl gynnyrch Llŷn**<br>**Effaith: Gofod i ddod a chymunedau Pen Llŷn at eu gilydd i gydweithio a rhannu arferion gwyrdd** | Datganiad gweledigaeth glir<br>Diffinio'r cydweithio gyda grwpiau GwyrddNi ac eraill |
| Caffi/Grŵp Trawsnewid Pwllheli | Grŵp i godi ymwybyddiaeth a gweithredu<br>Trefnu sgyrsiau a thrafodaethau am yr argyfwng newid hinsawdd<br>**Effaith:** Cyfle i drafod, codi ymwybyddiaeth, gweithredoedd | Ffurfioli grŵp GwyrddNi Pwllheli - Ffrindiau Pwlllheli<br>Datblygu rhaglen |







# > GWYBODAETH BELLACH

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD
GWYRDDNI
COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

## Cefnogi a Chysylltu

Diolch i chi am ddarllen Cynllun Gweithredu Hinsawdd Cymunedol Pen Llŷn. Gobeithio ei fod wedi sbarduno awydd i weithredu! Os hoffech chi ddysgu mwy am y syniadau sydd yn y Cynllun yma, neu eu cefnogi mewn unrhyw ffordd, cysylltwch heddiw: dafydd.rhys@ynnillyn.cymru (07887 954 301). Byddwn yn falch iawn o glywed gennych ac yn croesawu unrhyw gefnogaeth.

## Adroddiad Llawn

Os hoffech gael trosolwg mwy manwl o broses gynulliadol GwyrddNi, y mudiad, partneriaid y bum ardal, y rhaglen addysg a llawer mwy ewch i: https://www.gwyrddni.cymru/ynglyn-a-gwyrddni/

## Cynlluniau Gweithredu

Gallwch weld Cynlluniau Gweithredu holl ardaloedd GwyrddNi yma: https://www.gwyrddni.cymru/cynlluniau-gweithredu

I ymuno a rhestr bostio'r ardal - anfonwch ebost at llyn@gwyrddni.cymru

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD GWYRDDNI COMMUNITY • CLIMATE • ACTION
DEG Datblygiadau Egni Gwledig
CWMNI BRO FFESTINIOG
PARTNERIAETH OGWEN
YR ORSAF
CYD YNNI
Ynni Llŷn
CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND